. **CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR**
**COFNODION Y CYFARFOD MISOL**
**A GYNHALIWYD AR NOS IAU**
**18/04/2019 NEUADD PANTYFEDWEN AM 7.00PM**

**1. CROESO'R CADEIRYDD A MATERION PERSONOL**
Croesawodd y Gyngh. Angharad Jones bawb i'r cyfarfod misol. Dymunwyd yn dda i'r Gyngh. Mair Jones sydd heb fod yn hwylus yn ddiweddar.

**2. YN BRESENNOL:** Y Gynghorwraig Angharad Jones (Cadeirydd); Y Cynghorydd Gareth Owen (Is-Gadeirydd); Y Cynghorydd John Jones; Y Gynghorwraig Laura Jones; Y Cynghorydd Wil Lewis; Y Cynghorydd Alun Price-Jones; Y Cynghorydd Doug. Rowbotham; Y Cynghorydd Sirol Ifan Lloyd-Davies; Eleri Thomas, Clerc. Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu John Evans.

**3. YMDDIHEURIADAU**
Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Gynghorwraig Mair Jones, y Gynghorwraig Clare Hughes a'r Cynghorydd Non Jones.

**4. MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU:** Adroddodd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu John Evans na fu unrhyw droseddau, achosion o fyrgleriaeth; difrod na lladrata yn ystod y mis diwethaf. Bu un achos o ymddygiad gwrthgymdeithasol tu allan i Heol Teras yn ymwneud â mater domestig.

**5. DATGAN DIDDORDEB:** Dim wedi'u datgan.

**6. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD O'R 21ain Mawrth 2019**
**CYNIGIWYD** (y Cyngh. Gareth Owen ) **EILIWYD** (y Cyngh. Alun Price Jones) a **PHENDERFYNWYD** yn unfrydol fod Cofnodion y Cyfarfod o'r 21ain o Mawrth 2019 yn gywir ac arwyddwyd fel rhai cywir gan y Cadeirydd y Gyngh. Angharad Jones arwahan i:

**6.1 Cyf. Cofnodion 3:** Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb yn ogystal gan y Cyngh. Wil Lewis.

**7. MATERION YN CODI**

**7.1 Torri gwair o gwmpas y Pentref dros fisoedd yr haf**: **CYNIGIWYD** (Y Cyngh. John Jones) **EILIWYD** (Y Cyngh. Gareth Owen) a **PHENDERFYNWYD** yn unfrydol i dderbyn yr unig Dendr a dderbyniwyd gan Mr Ceri Benjamin: Glan-yr-Afon £50 x3; Mynedfa'r Pentref i gynnwys yr ardal ger yr Eglwys ac o amgylch Neuadd Pantyfedwen £160 x6; Darn o dir ger yr Ysgol Feithrin £20 x6. CYFANSWM £1,230.

**7.2 Glan-yr-Afon:** nid yw manylion cyswllt perchennog y tir ble lleolir y tanc olew sy'n amharu ar y llwybr troed Glan-yr-Afon, eto i'w ganfod. Cytunwyd i gysylltu â Mrs Neli Jones am wybodaeth pellach.

**7.3 Cais i osod palmant ger y Lloches-Bws, Penrhiw, Ffair Rhos:** Cadarnhaodd Mr Emeseh, Cyngor Sir Ceredigion fod y broses o neilltuo tir wedi dirwyn i ben yn ddiweddar a phenodir contractwr yn fuan i gyflawni'r gwaith. Rhaglennir y gwaith i gychwyn ym mis Ebrill 2019. Disgwylir gwybodaeth pellach.

**7.4 Ardal Chwarae Neuadd Pantyfedwen: Arolwg Rospa 2018**: wedi cymryd lle'n ystod Mehefin 2018. **Cytunwyd:** Y Cynghorydd Doug Rowbotham i glustnodi sylw pellach i'r ddogfen. Dywedwyd bod hoelion yn gwthio allan o'r Twnel a bod angen trwsio'r pren. Cytunwyd

i glustnodi sylw pellach i'r materion hyn cyn yr Archwiliad Ardal Chwarae ROSPA a drefnwyd ar gyfer Mehefin 2019.

**7.5** **Arwydd Ffordd: Lleihau Cyflymder:**Cysylltwyd â Rebus, Stad Ddiwydiannol, Aberystwyth ac archebwyd arwydd.

**7.6** **Camfeydd:** Gohebiaeth gan Mr Haydn Lewis, Cyngor Sir Ceredigion yn datgan bod y camfeydd yng nghyffiniau'r Parc Carafanau wedi eu hatgyweirio. O ran y llwybr troed sy'n rhedeg o'r ysgol i Ffair Rhos, bydd angen i Mr Lewis gysylltu â'r Cynghorydd Doug Rowbotham. Gofynnwyd am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r camfeydd oedd angen yng nghyffiniau Lôn Dywyll (yn ardal Dolebolion) ac ar y llwybr o Dynrhos i Danrhydiau (yng nghyffiniau Llwyngog).

**7.7** **Menter Mynyddoedd Cambrian**: Cynhaliwyd Sesiwn Galw Heibio ar Ddydd Llun 25ain Mawrth 2019;
11am-2pm, Neuadd Pantyfedwen: er gwybodaeth.

**7.8** **Ymddiriedolaeth Ystrad Fflur Prosiect Camau Bach**; bu i aelodau fynychu diwrnod agored i'r gymuned yn y Pafiliwn ar ddydd Sadwrn 9fed Chwefror 2019. Mae'r Ymddiriedolaeth, Sefydliad y Tywysog a phartneriaid eraill y prosiect wrthi'n adfywio safle hanesyddol Abaty Ystrad Fflur a'r tirweddau sydd o'i amgylch, a chanolbwynt y gwaith yw adeiladu fferm Mynachlog Fawr. Bwredir i'r safle ddod yn ganolfan a fydd yn adrodd hanes hir a chymhleth Cymru a'i diwylliant yng nghefn gwlad. Gwahoddwyd y Swyddog Prosiect, Helen Whitear, sydd bellach wedi ymddiswyddo, i gyfarfod dyfodol y Cyngor Cymuned.

**7.9** **Agenda Cyfarfod Ardal Un Llais Cymru:** 16.04.2019 am 7pm: Siambr y Cyngor Sir, Aberaeron a Chofnodion y Cyfarfod diwethaf: er gwybodaeth.

**7.10** **Absenoldeb Cyson gan Aelod: Geiriad Penodol yn y Gyfraith**
**Fel y dyfynnir yn Charles Arnold-Baker (Nawfed Argraffiad, adran 7.12,** “os bydd aelod yn methu â mynychu unrhyw gyfarfodydd o'r cyngor neu ei bwyllgorau neu ei is-bwyllgorau y mae'n aelod ohonynt drwy gydol chwe mis yn olynol, neu ar gyd-pwyllgor, cyd-fwrdd y trosglwyddwyd neu y dirprwywyd unrhyw un o bwerau'r cyngor iddo, yn awtomatig bydd yn peidio â bod yn aelod o'r Cyngor oni bai bod naill ai ganddo “esgus statudol” (yn fras, gwasanaeth milwrol yn ystod rhyfel neu argyfwng) neu mae ei fethiant oherwydd rheswm a gymeradwywyd gan y Cyngor cyn diwedd y cyfnod neu fynychodd fel cynrychiolydd y cyngor cyfarfod o unrhyw gorff o bobl (fel cymdeithas sirol o gynghorau lleol). Mae'r cyfnod yn dechrau gyda'r cyfarfod diwethaf a fynychwyd. Dywedodd y Cadeirydd y dylai pob aelod ymdrechu i fynychu cyfarfodydd y Cyngor Cymuned.
Dylai aelod hysbysu'r Cadeirydd neu'r Clerc os nad yw e/ hi'n medru mynychu cyfarfod.

**8.** **GOHEBIAETH**

**8.1** **Etholiad Seneddol Ewropeaidd 23ain Mai 2019 –** Hysbysiad Etholiad ar gyfer Rhanbarth Etholiadol Cymru, oddi wrth Ian Westley, Swyddog Canlyniadau Rhanbarthol yn rhoi rhybudd y cynhelir etholiad ar gyfer PEDWAR aelod o Senedd Ewrop. Os cynhelir etholiad fe'i gynhelir ar y 23ain Mai 2019 rhwng 7.00am a 10.00pm.

**8.2** **Cais gan Gysylltydd Cymunedol** Cyngor Sir Ceredigion i gwrdd ag aelodau'r Cyngor Cymuned: Mae CSC wedi mabwysiadu dull newydd o

ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i bobl Ceredigion. Mae'r model gwasanaeth newydd yn cynnwys Dewis Cymru (Cyfeiriadur Adnoddau Ar-lein); CLlC- (Canolfan Gwasanaethau Cwsmeriaid); Porth y Gymuned- (Porth Cymunedol); Porth Gofal - (Canolfan Gyswllt y Gwasanaethau Cymdeithasol). Ym Mhorth y Gymuned, mae 4 Cysylltydd Cymunedol ac Arweinydd Tîm a fydd yn cydweithio ag unigolion/ teuluoedd o bob oed a grwpiau cymunedol. Byddant yn ceisio nodi a chasglu gwybodaeth, cyngor a chymorth. Bydd gan y staff wybodaeth drylwyr o'r hyn sydd ar gael ym mhob un o'u hardaloedd dynodedig a'u nod yw darparu ymyriadau wedi'u targedu gydag ymagwedd ataliol.

Derbyniwyd ateb gan y Cyngor Sir yn sôn bod y gwasanaeth wedi bodoli ers blwyddyn ac y mae'r Cyngor Sir yn y broses o hyrwyddo'r gwasanaeth i Gynghorau'r Gymuned trwy gynnig cyflwyniad yn egluro ychydig mwy am Borth y Gymuned. Cytunwyd i wahodd cynrychiolydd i gyfarfod dyfodol y Cyngor Cymuned.

**8.3 Poster: Chwifiwch y Faner Goch:** ar gyfer diwrnod y llynges fasnachol: i'w arddangos yn y gymuned.

**8.4 Eisteddfod Genedlaethol Ceredigion 2020:** 1-8 Awst 2019: yn diolch am gefnogi'r Eisteddfod trwy gynnig gwobr. Ceisiwyd lleoli'r rhodd yn ôl dymuniad y Cyngor Cymuned: Adran: Cerddoriaeth; Y Gystadleuaeth: Côr Merched; Rhif y Gystadleuaeth 20: £500, Cyngor Cymuned Ystrad Fflur. Dymunir bod y cyfraniad yn ymddangos ar gyfer targed ardal 122 Ystrad Fflur ac Ystrad Meurig.

**8.5 Gohebiaeth pellach: Er gwybodaeth yn unig.**

## 9. CYLLID

**9.1 Cyflog y Clerc: Ebrill 2019**: £193.83 (Gross).

**9.2 Grant Gwyrdd – Cyngor Sir Ceredigion:** Cyflwynwyd yr anfonebau gerbron y Cyngor Sir.

**9.3 Mrs Enid Hughes** £70; Cyfrifon Neuadd Pantyfedwen 2018.

**9.4 Yswiriant Zurich**: £485.38; **PENDERFYNWYD** derbyn y cytundeb 5 mlynedd.

## 10. CYNLLUNIO

**10.1 Cyngor Sir Ceredigion**: **Pwyllgor Rheoli Datblygu:**
Agenda a Chofnodion cyfarfod diweddar.

**10.2 Ymgynghoriad Cynllunio:** Rhif y Cais A190220. **Ymgeisydd:** Badham. **Safle:** Capel Gorffwysfa, Ffair Rhos, Ystrad Meurig. **Y Bwriad:** Codi garej sengl.
**Sylwadau'r Cyngor Cymuned**: Dim Gwrthwynebiad.

## 11. UNRHYW FATER ARALL

**11.1 Cytunwyd i gysylltu â'r Adran Briffyrdd,** Cyngor Sir Ceredigion, i ofyn tybed a yw'n bosibl i wella cyflwr Heol yr Abaty i gynnwys ysgubo'r ffordd er mwyn hyrwyddo twristiaeth yn ardal Abaty Ystrad Fflur.

**11.2 Casglu Sbwriel yn y Pentref:**
Dewiswyd dydd Mawrth 30ain Ebrill 2019 am 5pm fel y dyddiad i gasglu sbwriel yn y Pentref a'r cyffiniau.

***Daeth y cyfarfod i ben am* 8.00 pm.**

## 12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF: Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a'r Cyfarfod Misol i ddilyn:

**Nos Iau 16eg Mai 2019 at 7pm.**

= = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = = =
(Llofnod/Dyddiad)